

- ***Ein Gweledigaeth yw Cymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.***
- ***Rydym eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio.***
- ***Cymru lle y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a theimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.***
- ***Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael.***
- ***Yn y pen draw, rydym eisiau bod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, a bod yn genedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunanfodddhad ac urddas pobl hŷn bob amser.***

Creu Cymru o blaid pobl hŷn			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi awdurdodau lleol i weithio gyda phartneriaid i greu cymunedau sydd o blaid pobl hŷn 			
Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Amserlenni
<p>Cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu neu wella mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn, a gweithio tuag at aelodaeth o Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd.</p> <p>Yn 2021-22, darparwyd £550,000 i gefnogi'r gwaith hwn.</p> <p>Yn 2022-23, byddwn yn darparu £1.1miliwn sef £50k i bob awdurdod lleol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cyngorau cymuned a thref, grwpiau a fforymau pobl hŷn, y trydydd sector</p>	<p>Llywodraeth Cymru i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr eiriolaeth pobl hŷn awdurdodau lleol i rannu arfer da a mesur cynnydd.</p> <p>Dyrannu cyllid ar gyfer 2022-23 a chefnogi'r awdurdodau lleol i ddod yn gymunedau sy'n ystyriol o oedran. Pob awdurdod lleol i gyflwyno cynlluniau i Lywodraeth</p>	<p>Parhaus ar hyd tymor y llywodraeth</p>

		<p>Cymru ym mis Hydref 2021 ac adroddiad terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>Nifer y partneriaethau sydd o blaid pobl hŷn dan arweiniad awdurdodau lleol sy'n ymuno â rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd.</p> <p>Cynnydd lleol mewn gwelliannau sydd o blaid pobl hŷn i gael eu mesur a'u monitro gan bartneriaethau lleol sydd o blaid pobl hŷn yn erbyn eu cynlluniau eu hunain.</p> <p>Diweddariadau chwarterol i Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel cyswllt rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd.</p> <p>Casglu straeon a chynnwys fideo i'w rhannu ar draws amrywiaeth o lwyfannau.</p> <p>Cynhyrchu cylchlythyr chwarterol ar arfer da. Dosbarthu ar draws yr holl randdeiliaid.</p>	
--	--	---	--

Hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar hawliau

Byddwn yn:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ymhlith pobl hŷn a gweithwyr proffesiynol
- Gweithio ar draws y llywodraeth a sectorau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a brofir gan bobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n profi anghydraddoldebau sy'n cydblethu.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Amserlenni
<p>Gweithio mewn partneriaeth ag Age Cymru ac eraill i hybu ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn – roedd cyllid o £100,000 ar gael yn 2021-22 i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd y prosiect yn rhedeg mewn i 2022-23</p> <p>Parhau i nodi ffyrdd o ymgorffori hawliau pobl hŷn ar draws datblygiad a darpariaeth gwasanaethau yn y sector cyhoeddus.</p> <p>Ariennir Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae'n llais ac yn hyrwyddwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn. Mae rhoi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, grwpiau pobl hŷn ac unigolion, Gofal Cymdeithasol Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</p>	<p>Adborth gan bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau.</p> <p>Ymchwil ac adolygiadau gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.</p> <p>Polisiâu a rhaglenni newydd sy'n cyfeirio at hawliau pobl hŷn.</p>	<p>Parhaus ar hyd tymor y llywodraeth</p>
<p>Cyhoeddi Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru gyda nodau, amserlenni camau gweithredu a chanlyniadau gweladwy. Mae'r cynllun wedi'i seilio ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac mae'n ymgorffori polisi dim goddefgarwch tuag at hiliaeth yn ei holl ffurfiau.</p>	<p>Llywodraeth Cymru a phob sector gan gynnwys iechyd, tai a'r economi.</p>	<p>Mae system lywodraethu ac atebolrwydd gref yn hanfodol er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w derbyn ac yn atebol amdani.</p>	<p>Cyhoeddi'r cynllun yn 2022</p>
<p>Mae'r Cynllun Gweithredu LGBTQ+ yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol presennol a brofir gan gymunedau LGBTQ+, herio gwahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae pobl LGBTQ+ yn ddiogel i fyw a charu'n ddilys, yn agored ac yn rhydd fel eu hunain. Bydd y cynllun yn ceisio mynd i'r afael yn benodol ag anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl hŷn LGBTQ+</p>	<p>Llywodraeth Cymru a phob sector gan gynnwys iechyd, tai a'r economi.</p>	<p>Bydd strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cryf ar waith i sicrhau bod ymrwymadau o fewn y cynllun yn cael eu cyflawni.</p>	<p>Cyhoeddi'r cynllun yn 2022</p>

drwy wella cynwysoldeb y ddarpariaeth iechyd a gofal a sicrhau bod hyfforddiant proffesiynol priodol ar waith.			
Ymgorffori egwyddorion ffeministaidd ar draws polisiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru	Pob sector	Goruchwylir y cynllun gan grŵp amrywiol o randdeiliaid mewnol ac allanol drwy Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.	Hirdymor
Cyflawni Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol	Pob sector	Arweinir y gwaith parhaus o fonitro a gwerthuso'r fframwaith gan y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	Hirdymor

Nod 1: Gwella llesiant

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<u>Blaenoriaeth 1: Gwella cymorth i ofalwyr di-dâl</u>			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi cynllun i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 			
Gweithredu'r cynllun cyflawni i gefnogi'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr i oruchwylio'r gweithredu.	Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â phob sector	Gwaith monitro sy'n ymwneud â gofalwyr di-dâl gan Lywodraeth Cymru, Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.	Cynllun wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 – cyflawni dros dymor y llywodraeth.

		Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	
Hyrwyddo arfer da drwy weithredu ar ddysgu gan Age Cymru, Gofalwyr Cymru a phrosiectau a ariennir gan Grant ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru	Llywodraeth Cymru, Age Cymru, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru	Swyddogion i roi diweddariadau rheolaidd i Fforwm Cyngori'r Gweinidog ar y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a chefnogi'r cynllun cyflawni.	Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – tymor hir – diwedd 2024
Hybu ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr drwy ymgyrchu a negeseuon	Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector	Wedi'i fonitro drwy'r Cynllun Cyflawni a gyhoeddwyd i gefnogi gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.	Tymor byr – cyflwynwyd ymgyrch gofalwyr yn 2021 Parhaus drwy'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r Cynllun Cyflawni

Blaenoriaeth 2: Gwella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Byddwn yn:

- Parhau i gefnogi pobl sy'n agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain, mewn ysbytai, mewn cartrefi gofal, mewn llety â chymorth neu leoliadau eraill, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ac arloesi lle bo hynny'n briodol.
- Gwella mynediad cynnar i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPS)¹
- Gwella mynediad i wasanaethau meddygon teulu
- Ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg lle bynnag maen nhw ar eu taith Gymraeg
- Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol
- Adolygu'r cyllid sydd ar gael i ofal cymdeithasol

^{*1} Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, hylenyddion deintyddol, deietegwyr, therapyddion corfforol, therapyddion lleferydd ac iaith a pharafeddygon.

<p>Darparu Cronfa Buddsoddi Refeniw pum mlynedd newydd i ddatblygu gwaith a dysgu'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Ar hyn o bryd, mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y gronfa yn fwy na £144 miliwn, ond disgwylir i ranbarthau ddarparu elfen o arian cyfatebol hefyd.</p> <p>Parhau i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Cymru Iachach.</p> <p>Parhau i integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, cymunedol a'r trydydd sector.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector</p>	<p>Bydd adroddiadau cynnydd sy'n ymwneud â'r Gronfa Buddsoddi Refeniw newydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd chwarter 2 a chwarter 4. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol hefyd.</p> <p>Monitro yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (a nodwyd ym Mynegai Age Watch y DU) <i>Hunanwerthusiad o iechyd cyffredinol y rhai dros 60 oed yng Nghymru.</i></p>	<p>Hirdymor – bydd y gronfa newydd ar waith o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027</p>
<p>Darparu mynediad uniongyrchol ac amserol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd mewn cymunedau a chanolfannau iechyd a lles integredig.</p> <p>Darparu ymyrraeth gynnar i gefnogi byw'n iach.</p>	<p>Byrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector</p>	<p>Drwy gyflawni'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd</p>	<p>Hirdymor a pharhaus</p>
<p>Recriwtio mwy o feddygon teulu drwy lansio Dyma Gymru: Hyfforddi Gweithio Byw</p>	<p>Llywodraeth Cymru/GIG Cymru</p>	<p>Cynnydd yn nifer y meddygon teulu sy'n gweithio yng Nghymru</p>	<p>Tymor canolig – oes yr ymgyrch</p>
<p>Cyflawni Model Gofal Sylfaenol Cymru – mae'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n cynnwys atal, gwasanaeth 24/7, y gweithlu aml-broffesiynol, data a thechnoleg ddigidol, cyfathrebu ac ymgysylltu, gweithio mewn clwstwr.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, GIG Cymru</p>	<p>Disgwylir i sefydliadau fonitro a chyflawni eu cynlluniau ar gyfer modelau gofal arloesol ac integredig.</p>	<p>Tymor canolig</p>
<p>Gweithredu newidiadau i gontract meddygon teulu i wella mynediad i apwyntiadau – cyhoeddwyd £12 miliwn o fuddsoddiad ym mis Rhagfyr 2021.</p> <p>Diwygio'r contractau gofal sylfaenol cenedlaethol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, GIG Cymru</p>	<p>Monitro yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (a nodwyd ym Mynegai Age Watch y DU) <i>Pa mor hawdd neu anodd oedd cael apwyntiad meddyg teulu i bobl dros 60 oed yng Nghymru.</i></p>	<p>Hirdymor</p>

<p>Hyrwyddo cynnig gweithredol a chyflawni Mwy na Geiriau – fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.</p> <p>Bydd trydedd fersiwn y fframwaith strategol yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2022 i gynnwys trefniadau monitro.</p>	<p>Byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, y trydydd sector</p>	<p>Mesurau Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg</p> <p>Adroddiadau monitro blynyddol Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ar Safonau'r Gymraeg. Anfonir yr adroddiadau hyn at Gomisiynydd y Gymraeg.</p>	<p>Hirdymor</p>
<p>Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gofal a chymorth dementia yng Nghymru. Er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried effaith y pandemig, cyhoeddwyd Cryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19 ym mis Medi 2021.</p> <p>Pan gyhoeddwyd y cynllun gweithredu yn 2018, fe'i cefnogwyd gan £9 miliwn. O 2021/22, cynyddwyd y ffigur hwn i £12 miliwn.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Rydym wedi comisiynu ORS i gynnal gwerthusiad annibynnol o weithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, a bydd y canfyddiadau'n llywio unrhyw ddogfen olynol.</p> <p>Mae'r Grŵp Trosolwg Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn llywio ac yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar Dementia</p> <p>Adrannau 'Sut y byddwn ni'n adrodd' wedi'u cynnwys yn Cryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19</p>	<p>Blaenoriaethau gwaith yn canolbwyntio ar 2022 ar hyn o bryd.</p>
<p>Ymgorffori presgripsiynau cymdeithasol fel rhan o wasanaethau hunan reoli ac atal, sy'n cyd-fynd â gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, sicrhau ansawdd, llywodraethu a goruchwyliaeth ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol drwy wasanaethau gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd</p>	<p>Byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y trydydd sector</p>	<p>Monitro Mynegai Oedran y DU ac Arolwg Cenedlaethol Cymru – iechyd a lles.</p> <p>Monitro'r Fframwaith Perfformiad.</p>	<p>Hirdymor</p>
<p>Ffurfiwyd Grŵp Arbenigol, a grëwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, i ddarparu</p>	<p>Llywodraeth Cymru ac Aelodau</p>	<p>Bydd y grŵp yn llunio adroddiad i Lywodraeth Cymru ac Aelodau</p>	<p>Tymor byr –</p>

argymhellion ar y camau nesaf ymarferol y gellir eu cymryd tuag at greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol lle mae gofal am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen.	Dynodedig Plaid Cymru yn gweithio gyda Grŵp Arbenigol	Dynodedig Plaid Cymru yn amlinellu eu hargymhellion.	Prif nod yn mynd â'r Grŵp hyd at Ebrill 2022
Ystyried ffordd gynaliadwy ymlaen ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.	Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol	Datblygu atebion Cymreig sy'n diwallu amgylchiadau pobl yng Nghymru	Hirdymor – dros dymor presennol y llywodraeth
Parhau i hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog: Blaenoriaeth i Gyn-filwyr mewn Gofal Iechyd	Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG a'r trydydd sector	Monitro nifer y cyn-filwyr 50+ oed sy'n cael eu cofnodi fel 'cyn-filwyr' yn unol â'r Cyfamod.	Hirdymor (2021-2026). Dros dymor presennol y Llywodraeth
Cyhoeddi fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru dosturiol lle mae gan bawb fynediad cyfartal at ofal a chymorth o ansawdd uchel mewn profedigaeth er mwyn diwallu eu hanghenion yn effeithiol pan fydd angen hynny.	Llywodraeth Cymru	Mae'r fframwaith yn cael ei gefnogi gan grant cymorth mewn profedigaeth gwerth £1 miliwn a bydd yn cynnwys safonau cenedlaethol, enghreifftiau o fodelau presennol o gymorth mewn profedigaeth a dysgu o COVID-19.	Hirdymor
<u>Blaenoriaeth 3: Gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl</u>			
Byddwn yn:			
<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno a gwerthuso Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun olynol 			
Mae ein strategaeth bresennol, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn dod i ben yn 2022. Yn ddiweddar, rydym wedi comisiynu ORS i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r strategaeth i asesu pa gynnydd sydd wedi'i wneud a'r hyn sydd angen ei roi ar waith ar gyfer y cynlluniau	Pob sector	Gwelliant o ran mynediad pobl hŷn at wasanaethau iechyd meddwl.	Hirdymor (2021-2026) – dros dymor presennol y llywodraeth

olynol. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r dull gweithredu ar gyfer pob oedran.		Monitro statws Cymru yn erbyn y Mynegai Global Age Watch o ran statws iechyd meddwl a chorfforol.	
---	--	---	--

Nod 2: Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<u>Tai</u>			
Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi twf modelau tai newydd sy'n cefnogi pobl i heneiddio'n dda • Cydlynu rhaglenni cyfalaf ar gyfer tai, iechyd a gofal cymdeithasol • Sicrhau bod tai yng Nghymru o safon dderbyniol 			
<p>Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol bum mlynedd newydd yn adeiladu ar lwyddiannau'r Gronfa Gofal Integredig drwy barhau i alluogi cydweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol.</p> <p>Mae'r gronfa'n bwriadu buddsoddi mewn lleoliadau gofal canolraddol fel fflatiau gofal ychwanegol a llety gofal ail-alluogi llai dwys i gynorthwyo pobl hŷn i adennill eu hannibyniaeth ac atal cyfeirio i leoliad gofal preswyl.</p>	Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector, y sector preifat.	Bydd adroddiad cynnydd sy'n ymwneud â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd chwarter 2 a chwarter 4. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol hefyd.	Hirdymor – bydd y gronfa newydd ar waith o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027
Mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni drwy gymryd camau i		Monitro drwy weithredu'r Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer, a lanswyd ar	Hirdymor

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p>gynorthwyo aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac ynni presennol.</p> <p>Lansiwyd yr ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes ar 22 Rhagfyr 2021.</p>		<p>Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Tlodi Tanwydd ar 3 Rhagfyr 2021.</p>	
<p>Datgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod, darparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol.</p> <p>Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi darparu cyllid i 4,500 o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru hyd yma. Erbyn 2024-2025, bydd buddsoddiad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cyfrannu at daith ddatgarboneiddio 148,000 o gartrefi.</p> <p>Mae sianelu buddsoddiad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio drwy landlordiaid cymdeithasol yn cefnogi dull 'profi a dysgu' o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi'n effeithiol ac yn effeithlon. Bydd hyn yn darparu'r sbardun i ddechrau datgarboneiddio cartrefi mewn deiliadaethau eraill yn gyflym erbyn 2023.</p> <p>Dyfarwyd £36 miliwn i'r <u>Ganolfan Adeiladu Gweithredol</u> ym Mhrifysgol Abertawe o Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol i drawsnewid y sectorau tai ac ynni.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyrrff sy'n cynrychioli'r sector</p>	<p>Monitro'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ehangach sy'n llywio datblygiadau parhaus</p>	<p>Hirdymor</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p><u>Mannau agored ac adeiladau</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig yn ddiogel ac yn gyfeillgar i oedran • Gwella argaeledd toiledau cyhoeddus • Ailfywiogi canol ein trefi 			
<p>Rydym yn bwrw ymlaen â diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol fel y gall swyddogion gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer cerbydau sy'n rhwystro'r llwybr troed ac edrych ar gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20 mya mewn ardaloedd preswyl</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>I'w gadarnhau</p>
<p>Drwy'r rhaglen cymunedau o blaid pobl hŷn a'n cefnogaeth i grwpiau a fforymau pobl hŷn, byddwn yn annog clywed lleisiau pobl hŷn pan fydd awdurdodau lleol yn cynllunio gwasanaethau allweddol, megis toiledau cyhoeddus.</p>	<p>Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, cynghorau cymuned a thref, dinasyddion</p>	<p>Gofyniad i bob awdurdod lleol gyhoeddi strategaeth toiledau cyhoeddus, ond awdurdodau lleol sy'n parhau i fod yn atebol am ei gweithredu.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Byddwn yn ail-lunio ac ail-lansio'r holl raglenni cyfalaf adfywio presennol o 2021 ymlaen fel un Gronfa Trawsnewid Trefi i greu canol trefi sy'n cynnig swyddi, cartrefi, hamdden a gwasanaethau, ond sy'n edrych yn wych, yn teimlo'n ddiogel ac yn hygyrch a bywiog hefyd ac ar yr un pryd yn cefnogi camau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, y trydydd sector a'r sector preifat</p>	<p>Mae'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ganol Trefi wedi cynnull y grwpiau gorchwyl a gorffen canlynol i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn:</p> <p>Cynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned</p>	<p>Tymor byr ar hyn o bryd, gyda grwpiau gorchwyl a gorffen yn adrodd ym mis Mawrth 2022.</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
		Symleiddio cyllid i un gronfa Trawsnewid Trefi.	
<p><u>Trafnidiaeth</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynorthwyo pobl i gynllunio teithiau o ddrws i ddrws • Gwella gwasanaethau bysiau • Datblygu trafndiaeth sy'n fwy ymatebol i'r galw 			
<p>Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn cynnwys pedwar llwybr cyflawni trawsbynciol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwybr Datgarboneiddio • Llwybr Cydraddoldeb • Llwybr cynllunio teithiau integredig • Llwybr Gwledig <p>Bydd y llwybr cynllunio teithiau integredig yn gofyn am ddull cyfannol, integredig o gynllunio teithiau, gan weithio ar draws gwahanol ddulliau a sectorau i'w gwneud yn haws i bobl deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio dulliau trafndiaeth gynaliadwy. Bydd yn cynnwys ystod gymhleth o faterion megis amserlennu, darparu gwybodaeth, a chynllunio seilwaith a datblygu polisi.</p> <p>Bydd y llwybr cydraddoldeb yn mapio ein hymrwymadau cyfreithiol a pholisi penodol ar hygyrchedd seilwaith a gwasanaethau, yn</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol</p>	<p>Byddwn yn sefydlu Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth i adolygu cynnydd cyffredinol Llwybr Newydd a byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr, y sectorau masnachol a'r trydydd sector, awdurdodau lleol a grwpiau cydraddoldeb, i gefnogi gwaith y Bwrdd.</p> <p>Bydd gweithgorau ymroddedig yn bwrw ymlaen â gwaith ar y ddau lwybr ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth.</p>	<p>Tymor canolig i weithgorau adrodd i'r Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth.</p> <p>Nod y Strategaeth yw trawsnewid trafndiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf.</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
ogystal â'n hymrwymiaadau ar ddylunio, hyfforddi, datblygu polisi a safonau cynhwysol.			
<p>Rydym wedi neilltuo £2.5 miliwn ar gyfer diwygio'r rhwydwaith bysiau.</p> <p>Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cynllun pum mlynedd, <i>Bws Cymru</i>, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer bysiau a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau a'i galluedd i helpu i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn parhau i ariannu gwelliannau i'r seilwaith bysiau er mwyn sicrhau bod mwy o arosfannau a chyfnewidfeydd allweddol yn hygyrch i bawb yn y gymuned. Rydym eisieu sefydlu trefniadau cryfach ar gyfer rhwydwaith bysiau TrawsCymru hefyd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell a gwell cysylltiadau â gwasanaethau bysiau allweddol mewn canolfannau a phwyntiau cyfnewid pwysig.</p>	Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, cyngorau cymuned a thref	<p>Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy gynllun pum mlynedd Bws Cymru.</p> <p>Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda chymunedau lleol drwy fforymau rhanbarthol i ddysgu mwy am y teithiau maen nhw'n eu gwneud a chymryd camau priodol.</p>	Hirdymor – cynllun pum mlynedd ar waith
Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni pum mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer trafndiaeth gymunedol. Mae hyn yn rhan o Gynllun Bach y Trydydd Sector yn strategaeth drafndiaeth newydd Cymru, Llwybr Newydd.	Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru/Llywodraeth Cymru	Drwy wireddu'r canlyniadau a nodir yn y cynllun cyflawni	Tymor canolig ar gyfer datblygu cynllun newydd

Nod 3: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p style="text-align: center;"><u>Cyfranogiad cymunedol</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gweithredu Cymunedau Cysylltiedig yn mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn sy'n profi unigrwydd, neu sydd mewn perygl o brofi unigrwydd. • Hyrwyddo gwirfoddoli fel ffordd o annog mwy o bobl i gysylltu â'u cymunedau • Gwella mynediad i fannau cyfarfod, a'u hargaeledd 			
Cefnogi datblygiad cymunedau sydd o blaid pobl hŷn	Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, Comisiynydd Pobl Hŷn, y trydydd sector	Nifer yr awdurdodau lleol sy'n sicrhau aelodaeth o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o ddinasoedd a chymunedau sydd o blaid pobl hŷn	Hirdymor – diwedd 2024
Ariannu cynllun grant tair blynedd i adeiladu gallu a chynaliadwyedd sefydliadau gwirfoddol a chymunedol rheng flaen sy'n dod â phobl ynghyd ac yn eu helpu i feithrin cysylltiadau cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol a phartneriaeth cyngor gwirfoddol sirol fonitro a gwerthuso'r defnydd o'r cyllid a rhannu'r dysgu. Gan ddefnyddio adborth gan y partneriaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro canlyniadau ac effaith a gwersi a ddysgwyd hefyd.	Tymor canolig – Mawrth 2024
Ariannu rhaglen Credydau Amser genedlaethol	Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y grwpiau neu sefydliadau cymunedol sydd wedi cofrestru • Gwirfoddolwyr sydd wedi cofrestru 	Mawrth 2023

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
		<ul style="list-style-type: none"> • Credydau Amser a enillwyd/a ddefnyddiwyd • Llysgenhadon a hyfforddwyd • Nifer partneriaid cydnabod 	
<p>Cefnogi rhaglen wirfoddoli ar draws safleoedd Cadw sy'n cynnwys amrywiaeth o oeddrannau ond yn enwedig pobl sydd wedi ymddeol a phobl hŷn. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys hyfforddiant, digwyddiadau cymdeithasol a rhyngweithio ag aelodau o'r cyhoedd.</p>	Llywodraeth Cymru/Cadw	<p>Cadw cofnod o'r oriau a gyflawnir gan wirfoddolwyr a chofnod o'r hyfforddiant a roddwyd.</p> <p>Gweithio tuag at sefydlu system rheoli gwirfoddolwyr.</p>	<p>Rhaglen barhaus.</p> <p>Adroddiadau misol ar gynnydd.</p>
<p>Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwirfoddoli drwy barhau i fuddsoddi yn seilwaith presennol y Cyngor Gwirfoddol Sirol a thrwy fecanweithiau grant fel Grant Gwirfoddoli Cymru a'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Hefyd drwy grantiau bach o hyd at £25,000 a nifer fach o fuddsoddiadau strategol i alluogi archwilio'r cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig ymhellach a'i gynnwys mewn gwaith parhaus.</p> <p>Mae cyllid cyfunol o dros £4.5 miliwn wedi'i ymrwymo ar gyfer Grantiau Gwirfoddoli Cymru dros y tair blwyddyn ariannol nesaf (2022-25)</p>	Llywodraeth Cymru / CGGC / Cyngorau Gwirfoddol Sirol	<p>Mesurau Mynegai Age UK:</p> <ul style="list-style-type: none"> • % y bobl sy'n gwirfoddoli yn ôl oedran a thros ba achos 	Hirdymor 2022-2025
<p>Byddwn yn annog awdurdodau lleol i weithio gyda chynghorau tref a chymuned a sefydliadau'r sector cyhoeddus i sicrhau bod gofod mewn adeiladau presennol a ariennir yn gyhoeddus neu a gefnogir</p>	Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol,	<p>Lansiwyd grant cyfalaf o £15 miliwn ar gyfer cynlluniau peilot Canolfannau Dysgu Cymunedol ledled Cymru. Cefnogwyd 21 o geisiadau, gan gynnwys prosiectau i alluogi</p>	Hirdymor

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p>yn gyhoeddus ar gael ar gyfer cyfranogiad cymunedol.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol, gan ddarparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth rhianta, dysgu teuluol a mynediad cymunedol i gyfleusterau wedi'u trefnu o gwmpas y diwrnod ysgol.</p>	<p>cynghorau tref a chymuned</p>	<p>defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgolion a chydleoli gwasanaethau.</p>	
<p>Gan weithio'n agos gyda gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd, byddwn yn annog pob bwrdd iechyd lleol ac awdurdod lleol ledled Cymru i sefydlu, ymgorffori a datblygu arferion sy'n pontio'r cenedlaethau.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, awdurdodau lleol a grwpiau a fforymau pobl hŷn hefyd i fapio gweithgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau ac archwilio sut i ailadrodd arfer da.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector, Prifysgol Bangor, grwpiau dinasyddion, Comisiynwyr.</p>	<p>Mesur fel rhan o'r cynnydd o ran datblygu cymunedau sydd o blaid pobl hŷn.</p> <p>Gwario'r gweithgareddau a amlinellir yng nghynlluniau gweithredu cymunedau o blaid pobl hŷn.</p>	<p>Mae'r cyfnod mapio yn barhaus yn 2022.</p> <p>O 2022 ymlaen, disgwyl statws cymunedau o blaid pobl hŷn i awdurdodau lleol ledled Cymru.</p>
<p>Byddwn yn archwilio sut y gallwn ddefnyddio gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau i helpu pobl iau i ennill neu wella sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'n polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg o fewn teuluoedd.</p> <p>Byddwn yn:</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Bydd y gwaith ar ddadansoddi sut rydym yn cyfathrebu yn dechrau yn ystod haf 2022</p> <p>Claremont Communications wedi'i gontractio i gynnal dadansoddiad</p>	<p>Haf 2022</p> <p>Mawrth 2022</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi sut rydym yn cyfathrebu â theuluoedd a'u haelodau estynedig (y tu hwnt i'r rhoddwyr gofal uniongyrchol) am eu defnydd o'r Gymraeg, gyda'r nod o gynnal a chynyddu trosglwyddo'r iaith. • Dadansoddi ymyriadau eraill yn seiliedig ar economeg ymddygiadol/seicoleg ymddygiadol/gwyddoniaeth ymddygiadol neu fethodoleg addas arall i weld a oes modd dysgu gwersi ar gyfer ein rhaglen trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd o fewn teuluoedd. 			
<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn a phartneriaid allweddol i gyhoeddi a gweithredu cynllun cenedlaethol i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin erbyn diwedd 2021. 			
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn cyd-fynd â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis y strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, ac yn mynd i'r afael â phob math o gamdriniaeth.</p> <p>Bydd y cynllun yn cynnwys cyfeiriad at esgeulustod a hunan-esgeulustod fel mater diogelu.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, Comisiynydd Pobl Hŷn, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.</p>	<p>Ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu Cyflawni camau gweithredu yn y cynllun Monitro yn erbyn data diogelu oedolion</p>	<p>Tymor hir a thymor canolig – 1 i 3 blynedd i gyflawni camau gweithredu.</p>
<p>Byddwn yn: <u>Cynllunio ar gyfer y dyfodol</u></p>			

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<ul style="list-style-type: none"> • Annog unigolion i ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynllunio ar gyfer bywyd diweddarach • Annog cyflogwyr i gyflwyno adolygiadau canol oes • Annog cyflogwyr i ystyried eu cyfrifoldebau corfforaethol drwy gynorthwyo gweithwyr i wirfoddoli 			
Byddwn yn gweithio gyda Fforwm Cyngori'r Gweinidog ar Heneiddio i archwilio sut i annog pobl i ystyried y ffactorau seicogymdeithasol a all eu cynorthwyo i heneiddio'n dda.	Pob sector	Drwy Fynegai Age UK i fesur lefelau lles	Tymor canolig
<p>Gweithio gyda phrosiect Age at Work Busnes yn y Gymuned</p> <p>Annog a chynorthwyo busnesau i fod yn fwy cynhwysol o ran oedran wrth gadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn</p> <p>Hybu ymwybyddiaeth o effaith gweithlu sy'n heneiddio a'r angen am agenda gynhwysol o ran oedran yn y llywodraeth, byd busnes a'r gymdeithas ehangach</p> <p>Cefnogi unigolion hŷn (50+ oed) i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith i barhau i ennill cyflog, cadw mewn cysylltiad a datblygu sgiliau newydd.</p>	Busnes yn y Gymuned, cwmnïau bach, canolig a mawr yng Nghymru, Llywodraeth Cymru	<p>Monitro canlyniadau Archwiliad Oed Busnes a gynhaliwyd gan Busnes yn y Gymuned</p> <p>Nifer yr unigolion sy'n mynychu seminarau.</p> <p>Niferoedd sydd wedi cwblhau archwiliad, gan ddefnyddio'r pecyn cymorth, a chreu cynllun gweithredu.</p> <p>Casglu a rhannu arferion da ac astudiaethau achos</p>	<p>Tymor canolig</p> <p>Rhaglen wedi'i hariannu tan fis Ebrill 2024</p>
Gweithio gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau i gydweddu ein gwaith ni â gweithredu eu Strategaeth ar gyfer Lles Ariannol ar draws y DU	Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Llywodraeth Cymru	Gwaith monitro sy'n ymwneud â thlodi pensiynwyr ym Mynegai Age Watch y DU.	Tymor canolig
<p>Byddwn yn:</p> <p style="text-align: center;"><u>Ymgysylltiad dinesig</u></p>			

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<ul style="list-style-type: none"> Parhau i adolygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn Cyflawni ein Cynllun Cyflogadwyedd 			
<p>Darparu cyllid i bob awdurdod lleol yn 2021-22 i ddatblygu mecanwaith effeithiol ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn</p> <p>Byddwn yn gwella mecanweithiau ymgysylltu â dinasyddion ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol</p>	<p>Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd Lleol</p>	<p>Awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022 ac yn barhaus, yn amodol ar gadarnhau'r gyllideb</p>
<p><u>Gweithwyr hŷn</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo ailsgilio gweithwyr hŷn Hyrwyddo ac annog gweithleoedd sydd o blaid pobl hŷn Cyflawni ein Cynllun Cyflogadwyedd 			
<p>Byddwn yn gweithio gyda Cymru'n Gweithio a phartneriaid eraill i sicrhau bod gweithwyr hŷn yn cael eu hannog i feddwl yn rhagweithiol am eu cyfleoedd gyrfa a'u hanghenion sgiliau drwy gydol eu hoes.</p> <p>Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno ymgyrch sy'n targedu unigolion a'u cyfeirio at 'Cymru'n Gweithio' ar gyfer mis Ionawr 2022. Mae'n cael ei addasu a'i bwysleisio fwy i dargedu mwy o weithwyr hŷn fel rhan o'r ymgyrch.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol, a gweithwyr</p>	<p>Cyfrifon Dysgu Personol – mesur y niferoedd sydd wedi cofrestru a mapio'r mathau o gyrsiau sy'n cael eu dilyn.</p> <p>Mesurau Mynegai Heneiddio'r DU:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflogi pobl hŷn Statws addysgol pobl hŷn 	<p>Parhaus</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
Byddwn yn parhau â'n Rhaglen Prentisiaethau Pob Oed – yn 2019-20, roedd dros 4,000 o bobl 50+ oed yn ymgymryd â phrentisiaeth ar lefel 2, 3 a 4.	Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol, a gweithwyr	Rhaglen prentisiaethau pob oed – mesur nifer y bobl 50+ sy'n cymryd rhan a pha lefelau.	l'w gadarnhau
Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i hybu ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr a chyfrifoldebau cyfreithiol cyflogwyr a chyfeirio at ffynonellau cyngor a chymorth.	Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr	Byddwn yn defnyddio ystadegau ymgyrchu a/neu ystadegau tudalennau gwe ac adborth gan bartneriaid gymdeithasol i asesu cyrhaeddiad y gwaith hwn	Parhaus
Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i hyrwyddo egwyddorion gwaith teg a manteision gweithlu cyfartal ac amrywiol. Mae hyn yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer cenedl Gwaith Teg lle mae pawb, gan gynnwys gweithwyr hŷn, yn cael eu cynnwys ac nad oes neb yn cael ei ddal yn ôl na'i adael ar ôl.	Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr	Mesurau Mynegai Heneiddio'r DU: <ul style="list-style-type: none"> • % yr oedolion a gyflogir yn ôl oedran 	Parhaus
Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol i'w hannog i ddarparu gweithleoedd sydd o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi'r nifer cynyddol o weithwyr a gofalwyr hŷn yn ein gweithlu.	Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, undebau llafur a chyflogwyr	Mesurau Mynegai Heneiddio'r DU: <ul style="list-style-type: none"> • % yr oedolion a gyflogir yn ôl oedran • A oes dewis i weithio'n rhan-amser, oriau hyblyg neu rannu swydd. 	Monitro blynyddol
Bydd ein Cynllun Cyflogadwyedd yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwneud Cymru'n economi cyflogaeth lawn, dechnolegol a chyflog uchel. Gwaith Teg i Bawb – Strategaeth Cyflogadwyedd <ul style="list-style-type: none"> • Cydraddoldeb economaidd – creu cyfleoedd i oedolion sy'n ei chael hi'n anodd 	Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, y sectorau preifat a statudol, a gweithwyr	Mesurau Mynegai Heneiddio'r DU: <ul style="list-style-type: none"> • % yr oedolion a gyflogir yn ôl oedran • Lefelau bodlonrwydd mewn swydd • Rhesymau dros beidio â gweithio oherwydd problemau iechyd 	Hirdymor

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p>dod o hyd i waith i ymgysylltu a chael gwaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithleoedd iach – cefnogi pobl â chyflyrau iechyd a gofal hirdymor. • Cymwys am oes – gwella lefelau sgiliau a chymwysterau, a symudedd pobl mewn gwaith a'r tu allan i'r gwaith, sy'n cynnwys Adolygiadau Gyrfa Canol Oes. 			
<p><u>Dysgu gydol oes</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi dysgu anffurfiol • Cefnogi dinasyddion i ddod yn ddigidol hyderus 			
<p>Bwriadwn gefnogi'r ddarpariaeth o gyrsiau ymgysylltu cymdeithasol drwy glybiau a grwpiau dysgu hunangyfeiriedig a fydd yn cefnogi pobl i barhau i ddysgu mewn ffordd anffurfiol er budd eu hiechyd a'u lles.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, addysg a'r trydydd sector</p>	<p>Lefelau cyfranogiad mewn dysgu oedolion.</p>	
<p>Cefnogi dinasyddion i ddod yn ddigidol hyderus</p>	<p>Llywodraeth Cymru a phob sector</p>	<p>Cefnogi'r polisi hwn drwy'r dangosydd cenedlaethol sydd newydd ei sefydlu, 'statws cynhwysiant digidol', sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p>	<p>Tymor Hir</p>
<p>Mae Strategaeth Ddigidol Cymru (Mawrth 2021) yn ei gwneud yn glir y byddwn yn rhoi'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau digidol sylfaenol a'r hyder i bobl</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Arolwg Cenedlaethol Cymru - defnydd personol o'r rhyngrwyd yn ôl oedran</p>	<p>Parhaus</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad cyflawni	Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p>ymgysylltu â byd sy'n gynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion. Isod ceir sawl darn allweddol o waith a fydd yn cefnogi'r ymrwymiad hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CGCD) i ymgymryd â mapio gweithgareddau. Bydd y map ar gael i'r cyhoedd ac yn rhoi amlinelliad clir i ddinasyddion a sefydliadau o ble y gallant fynd am gymorth i ddod yn ddigidol hyderus. ➤ Archwilio safon byw'n ddigidol ofynnol ar gyfer Cymru sy'n cynnwys llinell sylfaen gydnabyddedig ar gyfer yr hyn y mae'n ei olygu i'w gynnwys yn ddigidol e.e. cyflymder cysylltedd, dyfais a sgiliau digidol sylfaenol. Bydd ymgysylltu'n gynnar â sefydliadau a chynrychiolwyr pobl hŷn yn hollbwysig. ➤ Sicrhau bod ymyriadau priodol ar waith i gefnogi dinasyddion i fagu'r hyder digidol i ymgysylltu â digidol a gwybod ble i fynd am gymorth. Yn ogystal, sicrhau bod staff rheng flaen a gwirfoddolwyr yn gallu cael hyfforddiant i ddod yn ddigidol hyderus. 	<p>Llywodraeth Cymru / CGCD</p> <p>Llywodraeth Cymru / Prifysgol Lerpwl</p> <p>Llywodraeth Cymru / Cymunedau Digidol Cymru</p>		<p>Ebrill 2022</p> <p>Tachwedd 2022* (cymal ar gyfer yr ail gam)</p> <p>Hirdymor (Mehefin 2025)</p>

Nod 4: Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad	Sut y byddwn yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<u>Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol</u>			
Bydd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a ddaeth i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, yn annog gwell penderfyniadau ac yn sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y pen draw.	Cyrff cyhoeddus	<p>Yn ystod haf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru offeryn tracio cynnydd i gefnogi prosesau cynllunio. Cyhoeddwyd adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau ym mis Hydref 2021.</p> <p>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bwriadu cynnal gwaith ymchwil yn y dyfodol i effaith y Ddyletswydd. Rydym yn deall bod bwriad i hyn ddigwydd ddim cynharach na diwedd 2022, gan roi amser a lle i gyrff cyhoeddus perthnasol ymgorffori'r Ddyletswydd.</p>	Parhaus
<u>Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredyd pensiwn</u>			
<p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddyfeisio'r Siarter a fydd wrth wraidd system fudd-daliadau i Gymru, sy'n gweithio i bawb yng Nghymru. 			

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad	Sut y byddwn yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
<p>Rydym wedi ariannu sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u hariannu gyda gweithwyr cymorth yn gweithio gyda phobl ag anableddau a rydym wedi lansio tendr i wneud rhaglen hyfforddi arall.</p> <p>O dan ein rhaglen i gynyddu incwm cymaint â phosibl, rydym wedi sefydlu cyfres o weithgorau. Mae Grŵp 3 yn ystyried sut i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar greyd pensiwn.</p> <p>Byddwn yn archwilio sut y gall grwpiau a fforymau 50+ lleol a chenedlaethol helpu i fynd i'r afael â stigma hawlio budd-daliadau.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned</p>	<p>Nifer sy'n manteisio ar greyd pensiwn.</p>	<p>Tymor canolig</p>
<p><u>Buddsoddi yn economi sylfaenol Cymru</u></p> <p>Byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ailfywiogi canol ein trefi (Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi'n lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt) 			
<p>Byddwn yn ail-lunio ac ail-lansio'r holl raglenni cyfalaf adfywio presennol o 2022 ymlaen fel un Gronfa Trawsnewid Trefi i greu canol trefi sy'n cynnig swyddi, cartrefi, hamdden a gwasanaethau, ond sy'n edrych yn wych, yn teimlo'n ddiogel ac yn hygyrch a bywiog hefyd ac ar yr un pryd yn cefnogi camau gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur.</p> <p>Mae adfywio ein trefi'n gynaliadwy yn gysylltiedig â buddsoddiadau a wnawn ar draws y Llywodraeth,</p>	<p>Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol</p>	<p>Mae'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ganol Trefi wedi cynnull yr is-grwpiau gorchwyl a gorffen canlynol i fwrw ymlaen â chynigion:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymhellion ariannol; a Cynllunio ac ymgysylltu â'r gymuned. <p>Mae'r Grŵp Gweithredu Gweinidogol ar Ganol Trefi yn herio a chraffu ar y cynnydd.</p>	<p>Tymor byr ar hyn o bryd, gydag is-grwpiau gorchwyl a gorffen yn adrodd ym mis Mawrth 2022.</p> <p>Ymrwymiad hirdymor i greu canol trefi cynaliadwy ar gyfer</p>

Sut y byddwn yn cyflawni hyn	Sector/sefydliad	Sut y byddwn yn mesur/monitro cynnydd	Cyfnod
yn enwedig ym meysydd trafnidiaeth, tai, iechyd a'r economi.			cenedlaethau'r dyfodol.
<p>Byddwn yn adeiladu ar ein dull Economi Sylfaenol ac yn sefydlu Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol gyda ffocws penodol ar Ofal Cymdeithasol; Datgarboneiddio cartrefi a bysiau; Bwyd; a Chaffael Cyhoeddus.</p> <p>Yn ogystal, bydd yr uned economi sylfaenol yn cyflawni rôl bontio i gynorthwyo adrannau Llywodraeth Cymru i ymgorffori'r Economi Sylfaenol mewn strategaeth bolisi a chynllun cyflawni. Bydd ymgorffori meddylfryd yr Economi Sylfaenol ar draws Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau sy'n gwella mynediad sy'n ystyriol o oedran at nwyddau a gwasanaethau hanfodol.</p>	Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector cyhoeddus	Mae data sylfaenol a dangosyddion cynnydd wrthi'n cael eu datblygu a gellir adolygu'r rhain yn hydref 2022 i asesu eu heffaith ar Gynllun Cyflawni Strategaeth Heneiddio'n Dda Cymru	Adolygu Hydref 2022